#WalesDoesNotConsent

#NidywCymru'nCydsynio

**MANYLION ar Ran 4 o Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd - gwneud tresmasu'n drosedd a phwerau newydd i'r heddlu i fynd i'r afael â gwersylloedd diawdurdod**

**Cyfarfod Llawn 18 Ionawr 2022**

**Eitem 9: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd: Cynnig 2**

---

*"Mae diwylliant yn dirywio oherwydd ein bod yn cael ein gorfodi i'w adael ar ôl. Allwn ni ddim byw yn y ffordd rydyn ni ei eisiau. Dydyn nhw ddim yn gallu cynnig safleoedd; wnawn nhw ddim rhoi caniatâd cynllunio ar safleoedd preifat felly beth maen nhw eisiau i ni ei wneud. Allwn ni ddim byw ar ochr y ffyrdd mwyach; yn syml, maen nhw eisiau i ni fod mewn tai. Mae'r diwylliant Teithio yn diflannu." (Bill, Romanichal, Gogledd Cymru)*

**Prif bwyntiau:**

1. Rydyn ni'n annog y Senedd i wrthod cydsyniad deddfwriaethol i Ran 4 o'r Bil Heddlu, Troseddu a Dedfrydu oherwydd ei effaith ar faterion datganoledig.
2. Os caiff ei deddfu, bydd y ddeddfwriaeth hon yn gwahaniaethu yn erbyn Sipsiwn, Roma a Theithwyr (grwpiau a warchodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010), gan arwain at droseddu, risg o dlodi, digartrefedd a rhoi mwy o bwysau ar deuluoedd a gwasanaethau cymdeithasol.
3. Credwn y bydd hyn yn tanseilio deddfwriaeth a pholisi presennol Cymru, nad yw'n cael ei gefnogi gan y rhan fwyaf o'r heddlu na thystiolaeth ryngwladol, ac nad yw'n delio â'r prif fater, sef diffyg safleoedd dros dro a safleoedd preswyl priodol yng Nghymru.
4. Rydyn ni'n annog y Senedd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn **cyflawni eu dyletswydd statudol** i ddarparu digon o safleoedd preswyl a safleoedd dros dro o ansawdd da, yn ogystal â mannau aros, neu i osod cosbau ar awdurdodau lleol lle nad yw dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni.

**Beth yw Rhan 4 Bil yr Heddlu, Troseddu a Dedfrydu a'r Llysoedd?**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn pasio deddfwriaeth drwy'r Senedd i ddiwygio plismona yng Nghymru a Lloegr yn eang.

Mae Rhan 4 o'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys gwneud 'tresmasu gyda'r bwriad o breswylio' yn drosedd ac mae'n rhoi pwerau ychwanegol i awdurdodau atafaelu cerbydau – sydd mewn sawl achos yn gartrefi teulu neu'n hanfodol at ddibenion gwaith – yn ogystal â rhoi dirwyon a charcharu.

Credwn fod y Bil – gyda'i gwmpas eang iawn – yn un o'r bygythiadau mwyaf difrifol i ryddid sifil mewn hanes diweddar. Mae'n torri'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, fel y'i hymgorfforir yng nghyfraith ddomestig y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac yn trosglwyddo pwerau newydd i'r heddlu a'r Ysgrifennydd Cartref i danseilio ffordd o fyw nomadaidd Sipsiwn a Theithwyr.

**Pam mae Rhan 4 yn bwysig i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr?**

Mae natur gosbol y Bil hwn a fydd yn sicr yn gwneud pobl yn droseddwyr yn benodol o'r grwpiau ethnig gwarchodedig hyn yn wahaniaethol ac yn torri Deddf Cydraddoldeb 2010.

Fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, gallai Rhan 4 arwain at deuluoedd heb unrhyw le cyfreithiol arall ar gael i barcio eu cerbyd(au) gan arwain at feddiannu cartrefi ac eiddo, gan adael pobl heb unrhyw gyfleusterau domestig, trafnidiaeth nac adnoddau cyflogaeth. Gallai hyn eu gwneud yn droseddwyr, gan yrru teuluoedd i dlodi, digartrefedd, plant yn cael eu rhoi mewn gofal a mwy o alw ar asiantaethau gofal cymdeithasol ar adeg o angen nas gwelwyd ei debyg o'r blaen gyda system gofal cymdeithasol heb ddigon o adnoddau.

**Effaith ar blant**

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc Cymru yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau i roi sylw dyledus i hawliau plant fel y nodir yn CCUHP. Yn benodol, mae dyletswydd Cymru 2014 i ddarparu safleoedd yn weithred uniongyrchol o weithredu argymhelliad hirsefydlog gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn i ddarparu llety sy'n ddiwylliannol briodol ac sy'n unigryw yn y DU.

Credwn y dylid ***parchu a hwyluso'r*** hawl i fywyd teuluol ac i fwynhau ac ymarfer diwylliant a thraddodiadau grwpiau lleiafrifol. Yn ein barn ni, mae'r cynigion hyn yn torri'r erthyglau canlynol:

Erthygl 2: Yr hawl i beidio â gwahaniaethu – mae hyn wedi'i dargedu at Sipsiwn a Theithwyr, sy'n cynnwys grwpiau ethnig sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Erthygl 3: Lles gorau plant – mae'r cynigion yn ceisio gwneud rhieni'n droseddwyr, cael gafael ar gartrefi plant sy'n golygu y gallen nhw gael eu hystyried yn ddigartref a'u bod yn agored i niwed i dderbyn gofal y wladwriaeth a mynd i'r afael ymhellach â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad at hawliau iechyd ac addysg.

Erthygl 30: 'Ni chaiff plentyn sy'n perthyn i leiafrif o'r fath yr hawl, mewn cymuned gydag aelodau eraill o'i grŵp, i fwynhau ei ddiwylliant ef neu hi ei hun, i ddatblygu ac ymarfer ei grefydd neu ei iaith ei hun.'

**Beth ddylai deddfwriaeth gyfredol yng Nghymru ei gyflawni?**

Mae safleoedd cyfreithiol, sydd wedi'u dynodi'n glir, yn safleoedd dros dro neu breswyl, yn golygu ei bod yn haws i awdurdodau lleol sicrhau bod y ffordd o fyw nomadaidd yn cael ei hwyluso a bod cymunedau sefydlog a phobl o'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw neu'n teithio drwy Gymru yn gallu gwneud hynny'n ddiogel, yn gyfreithlon ac yn gytûn.

Mae Cynllun 2018 Llywodraeth Cymru 'Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr' yn cadarnhau ymrwymiad a chamau gweithredu clir i wneud y canlynol:

- parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod digon o safleoedd preswyl a thros dro i Sipsiwn a Theithwyr sy'n briodol yn ddiwylliannol yn cael eu creu yng Nghymru.
- herio canlyniadau iechyd ac addysg cynhenid sy'n atal y cymunedau hyn rhag cyflawni eu potensial.
- meithrin cysylltiadau da rhwng cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymdeithas ehangach.

Mae Rhan Tri o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ac yn dod â dyletswydd statudol yn ôl (a ailadroddir gan CJPOA 1994) ar awdurdodau lleol yng Nghymru i asesu (S101) a darparu (S103) ar gyfer darpariaeth breswyl a thros dro i *Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn ei hardal neu'n aros ynddi.* Ceir diffiniad o safle preswyl a safle dros dro yn y troednodyn isod.[1]

Mae hyn yn egluro ymrwymiad y llywodraeth ddatganoledig i ddarparu safleoedd parhaol fel bod gan deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr fynediad at le cyfreithiol i osod eu cerbydau, bod ganddyn nhw lety diogel o safon sy'n eu galluogi i gael mynediad at gyfleusterau, iechyd, addysg a gwaith tra'n byw mewn grwpiau teuluol estynedig traddodiadol. Mae hefyd yn nodi'n glir bod angen darpariaeth dros dro '*er mwyn darparu llwybr i Sipsiwn a Theithwyr gynnal ffordd o fyw nomadaidd*,' hawl sydd wedi'i chynnwys yn Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Yn ogystal, mae Canllawiau Cymru ar Reoli Gwersylloedd Heb Ganiatâd yn gosod canllawiau clir i awdurdodau lleol ymateb i wersylloedd yn eu hardal, gan gynnwys yr angen i gynnal archwiliad lles a chysylltu'r teulu ag unrhyw wasanaethau sydd eu hangen; sefydlu'r rhesymau dros y gwersyllfa ac addasrwydd ac argaeledd y tir (neu ddewisiadau eraill y gellir eu nodi) gyda golwg ar sefydlu cytundeb gyda'r teulu(oedd) sy'n gwersylla o ran hyd yr arhosiad, y cyfleusterau sydd eu hangen ac unrhyw gytundebau eraill i sicrhau y gellir parhau i wersylla yno. Mae hyn yn dyddio'n ôl i'r cyfnod ac mae'n debyg i'r model 'Mannau Aros sydd wedi'u Negodi sy'n cael ei fabwysiadu neu'n cael ei archwilio gan rai awdurdodau lleol ac mae'n cynnig ymateb dyngarol a chymesur i barchu traddodiadau nomadaidd ac i gydnabod y diffyg opsiynau eraill sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, **mewn egwyddor**, wedi ymrwymo i'r canllawiau hyn ac wedi cael protocolau rhanbarthol gyda Heddluoedd Cymru, **nid oes unrhyw fonitro** i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu gweithredu'n briodol ac yn gyson ledled Cymru gan gynghorau a heddluoedd. Mae angen dyletswydd gliriach ar awdurdodau lleol i ffurfioli a monitro'r trefniadau hyn yng ngoleuni effeithiau posibl y Bil hwn ar gymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Er gwaethaf y gofyniad am asesiadau llety 5 mlynedd, nid yw'n ymddangos bod data cyffredinol ynghylch faint o gynnydd sydd wedi cael ei wneud wedi cael ei gasglu ar ôl cyflwyno'r ddyletswydd yn 2014 – nac unrhyw asesiad cyfredol o'r diffyg parhaus mewn angen am safleoedd yng Nghymru; roedd yr adolygiad diwethaf ar draws Cymru un ar bymtheg o flynyddoedd yn ôl ( Niner 2006)

---

[1] **Safle preswyl:** Gall safle preswyl parhaol fod yn eiddo preifat neu'n eiddo i'r Awdurdod Lleol. Bydd y safle hwn yn cael ei ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr ar y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd â'u bod yn glynu wrth delerau eu cytundebau lleiniau. Gellir darparu mannau gweithio hefyd ar safleoedd, neu gerllaw, ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau o'r gymuned.
**Safleoedd dros dro**: cyfleusterau parhaol yw'r rhain sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio dros dro gan feddianwyr. Rhaid dynodi'r safleoedd hyn yn rhai o'r fath a darparu ffordd i Sipsiwn a Theithwyr gynnal ffordd o fyw nomadaidd. Caniateir i feddianwyr unigol fyw ar y safle am hyd at 3 mis ar y tro. Mae telerau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol i'r safleoedd hyn. Gellir darparu mannau gweithio hefyd ar safleoedd, neu gerllaw, ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir gan aelodau o'r gymuned ( https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/undertaking-gypsy-and-traveller-accommodation-assessments.pdf )

Yr hyn a wyddom yw nad yw'r ddyletswydd wedi arwain at **UNRHYW** safleoedd dros dro yng Nghymru hyd yma ac nid oes yr un awdurdod lleol wedi'i ddal yn atebol am y methiant i fodloni'r gofyniad hwn.

**Mae gweithredu Rhan 4 o Fil yr Heddlu ar ben yr hawliau cyfreithiol nad ydyn nhw'n cael eu diwallu yn anghyson ac mae'n gorfodi teuluoedd nomadaidd yng Nghymru i sefyllfa amhosibl pan fo Cymru wedi ymrwymo i gymaint mwy.**

**Deddfwriaeth wael**

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cosbi ac nid yw'n mynd i'r afael ag anghenion gwirioneddol y cymunedau, hynny yw darparu digon o lety o safon a mannau aros parhaol a dros dro i gefnogi a hwyluso traddodiadau nomadaidd.

Mae'n anghymesur ac yn seiliedig ar amheuaeth o bosibl cyn y gellir cynnal asesiad priodol o anghenion teuluoedd – hynny yw, gall yr heddlu ddefnyddio'u pwerau os ydyn nhw'n credu bod 'difrod, aflonyddwch neu drallod' yn *debygol* o ddeillio o wersyllfa.

Nid yw'r rhan fwyaf o'r heddlu'n cefnogi gwneud tresmasu'n drosedd. Mae Ymchwil wedi dangos bod 75% o ymatebion yr heddlu i ymgynghoriad 2018 y Swyddfa Gartref yn dangos bod y pwerau presennol yn ddigonol neu'n gymesur, er nad oedd 84% o heddluoedd yn cefnogi'r arfer o aros mewn gwersylloedd diawdurdod yn drosedd; roedd 93% o gyrff yr heddlu yn galw am ddarparu gwell safleoedd fel ateb i wersylloedd diawdurdod.
Dywedodd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu: "Mae diffyg llety digonol a phriodol i Sipsiwn a Theithwyr yn parhau i fod y prif achos o hyd o achosion o wersylla diawdurdod a datblygiad diawdurdod gan y grwpiau hyn".

Mae'r cynigion yn gwrthdaro â fframwaith deddfwriaethol a pholisi Llywodraeth Cymru a'i phwerau a'i chyfrifoldebau datganoledig gan gynnwys ymrwymiadau hawliau dynol craidd; mae'r canllawiau drafft newydd a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref yn datgan na ddylai'r heddlu, ochr yn ochr â chyrff cyhoeddus eraill, ***roi'r gorau i hawliau dynol.***

Mae'n debygol o arwain at faterion a/neu heriau deddfwriaethol cyfansoddiadol i awdurdodau lleol ac i Lywodraeth Cymru oni bai eu bod yn cael eu haddasu. Os na, yna gallai heriau cyfreithiol yng Nghymru olygu nad yw'r Mesur yn gweithio. Mae cymariaethau rhyngwladol[2] ag Iwerddon yn dangos bod cyfuno dyletswydd statudol wrth wneud tresmasu'n drosedd yn aneffeithiol, ac mae deddfwriaeth debyg yn yr Iseldiroedd wedi cael effaith drychinebus ar ffordd nomadaidd o fyw.

**Rydyn ni'n eich annog i bleidleisio i wrthod caniatâd gan y Senedd ar gyfer Rhan 4 Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ac anfon neges gref o gefnogaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr Cymru**

[2] Mae'r dadansoddiad cymharol cychwynnol hwn yn waith ymchwil parhaus gan Traveling Ahead- TGP Cymru – gellir cael copïau

*"Mae'r bywyd Teithiol yn fy nheulu yn mynd yn ôl dros dri chan mlynedd yng Nghymru, roedd ganddyn nhw fannau aros lle byddai pobl leol yn dod at ei gilydd i glywed eu straeon a dawnsio i ffidlau a thelynau'r Sipsiwn. Ledled Cymru, gallwch weld 'Y lôn Sipsi/Gipsy Lane.' Roedd y rhain yn llefydd lle'r oedd ein teuluoedd yn gallu aros, yn gallu rhoi genedigaeth, yn gallu priodi, yn ogystal â marw. Drwy wneud yr arferion diwylliannol cyfoethog hyn o fannau aros yn anghyfreithlon, bydd yn rhoi terfyn ar etifeddiaeth gyfan o ddiwylliant Cymru. Heb 'le' ni fydd unrhyw ystyr i'n hunaniaeth ddiwylliannol Romani Gymreig a bydd ein cyfraniadau at ddiwylliant Cymru yn mynd yn angof ac yn diflannu am byth." (Allison Hulmes, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain ac Aelod Sylfaenydd, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Sipsiwn, Roma a Theithwyr).*

---

Datblygwyd y papur gwybodaeth hwn ac fe'i cefnogir gan gynghrair o gynrychiolwyr unigol, eiriolwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru, ochr yn ochr â chynghreiriaid sy'n cynrychioli nifer o asiantaethau eiriolaeth cymdeithas sifil, cyfiawnder cymdeithasol, cyfreithiol, diwylliannol a chyfiawnder troseddol gan gynnwys:

**Travelling Ahead @TGPCymru**

**BASW Cymru**

**The Gypsy, Roma and Traveller Social Workers Association**

**Gypsies and Travellers Wales,**

**Travellers Against Racism**

**Race Alliance Wales**

**Tai Pawb**


**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

**trudy.aspinwall@tgpcymru.org.uk**

**allison.hulmes@basw.co.uk**